Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb,

Llywodraeth Leol a Chymunedau

John.Griffiths@senedd.cymru

Dydd Iau 5 Tachwedd 2020

Annwyl Cadeirydd,

**Pwnc: Ymchwiliad i driniaeth gweithwyr lleiafrifoedd ethnig yn ystod y pandemig Coronafeirws**

Bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gweithio i gynnal hawliau dynol a lleihau anghydraddoldebau ymhob agwedd bywyd, gan gynnwys helpu sicrhau mynediad cyfartal i'r farchnad lafur a thriniaeth deg yn y gwaith i bawb.

Yn gynharach eleni, yn dilyn tystiolaeth bod rhai lleiafrifoedd ethnig ar risg uwch o farwolaeth, cyhoeddom gynlluniau i gynnal ymchwiliad i effaith Coronafeirws ac anghydraddoldeb hil, yn unol â'n pwerau o dan Adran 16 Deddf Cydraddoldeb 2006. Ysgrifennaf i rannu â chi Gylch Gorchwyl, ar gyfer yr ymchwiliad hwn, rydym wedi cyhoeddi heddiw.

Bydd yr ymchwiliad yn ystyried ystod o ffactorau gan gynnwys sut allai statws cyflogaeth, polisïau ac arfer y gweithle, hawliau i unioniad, ac arfer comisiynu a

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Bloc 1, Cainc D, Adeiladau Llywodraeth, Heol Santes Agnes,
Caerdydd, CF14 4YJ

Block 1, Spur D, Government Buildings, St Agnes Road,
Cardiff, CF14 4YJ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

chynllunio gwasanaethau fod wedi cyfranogi at driniaeth a deilliannau anghyfartal i weithwyr lleiafrifoedd ethnig is eu cyflog yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban. Ein nod bydd llunio argymhellion sydd yn drosglwyddadwy a pherthnasol i sectorau eraill.

Yn yr wythnosau i ddod, byddwn yn cynnal ymchwil, ac yn lansio galwad am dystiolaeth ar brofiadau gweithwyr lleiafrifoedd ethnig. Bwriadwn gyhoeddi'n canfyddiadau ochr yn ochr ag argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth i daclo gwahaniaethu hil ym maes cyflogaeth y flwyddyn nesaf.

Cydnabyddwn er nad yw polisi cyflogaeth wedi'i ddatganoli yng Nghymru, mae cymhwysiad polisi yng Nghymru yn wahanol ac felly, caiff hyn ei adlewyrchu yn ein canfyddiadau ac argymhellion. Gobeithio gallai'r argymhellion hyn helpu llywio'r camau sydd yn mynd rhagddynt o fewn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil.

Byddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol gyda chi, gan gynnwys ein canfyddiadau ac argymhellion mae o law. Os hoffech drafod yr ymchwiliad yn bellach, yna peidiwch ag oedi rhag cysylltu â mi.

Yr eiddoch yn ddiffuant,



Parch Ruth Coombs, Pennaeth Cymru

0292044720 | ruth.coombs@equalityhumanrights.com

---

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Bloc 1, Cainc D, Adeiladau Llywodraeth, Heol Santes Agnes,
Caerdydd, CF14 4YJ

Block 1, Spur D, Government Buildings, St Agnes Road,
Cardiff, CF14 4YJ

**equalityhumanrights.com**

# Ymchwiliad i driniaeth a phrofiad gweithwyr lleiafrifoedd ethnig mewn rolau â chyflog is yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae anghydraddoldebau hil wedi cael eu hamlygu gan COVID-19. Bydd yr ymchwiliad yn edrych ar brofiadau a thriniaeth gweithwyr lleiafrifoedd ethnig mewn rolau ar gyflog is yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ceisio dogfennu materion gwaith ehangach a amlygwyd gan y pandemig.

Yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 2 Deddf Cydraddoldeb 2006. Ymholiad statudol o dan Adran 16 ac Atodlen 2 Deddf Cydraddoldeb 2006.

**Cylch gorchwyl**

1. Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar y rolau ar y cyflog isaf yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion (y rhai sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu rhoi ar gontract allanol) ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae enghreifftiau'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: gynorthwywyr gofal a gweithwyr gofal; cynorthwywyr personol; porthorion a glanhawyr. Efallai y byddwn ni’n archwilio rolau tebyg mewn sectorau eraill.

2. Bydd yr ymchwiliad hwn yn ceisio deall sut mae COVID-19 wedi effeithio mwy ar rai grwpiau ethnig sy'n gweithio mewn rolau ar gyflog is a pha ffactorau cysylltiedig â gwaith a gyfrannodd at hyn. Rydym am glywed am ystod eang o brofiadau, er mwyn nodi materion penodol ar gyfer grwpiau ethnig penodol, a, lle mae'n berthnasol, deall effaith statws mewnfudo.

3. Bydd yr ymchwiliad yn edrych ar brofiadau gweithwyr lleiafrifoedd ethnig gan ddechrau o'r 1 Ionawr 2019 hyd yn hyn.

**Cwmpas**

4. Bydd yr ymchwiliad yn edrych ar amodau gwaith gweithwyr lleiafrifoedd ethnig mewn rolau ar gyflog is yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn archwilio'r rhain ochr yn ochr â'u statws cyflogaeth (gan gynnwys a ydynt mewn rolau ansicr neu ansefydlog). Byddwn ni'n edrych ar ystod o ffactorau gan gynnwys:
    a. Oriau gwaith ac egwyliau
    b. mynediad at wybodaeth ac offer hanfodol
    c. polisïau ac arferion y gweithle, gan gynnwys polisïau cwyno a salwch ynghyd â pholisïau ac arferion anffurfiol sy'n effeithio ar y diwylliant gwaith
    d. hawliau cyflogaeth statudol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gymhwysedd ar gyfer tâl salwch
    e. profiad yn y gweithle, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddyrannu tasgau ac a yw unigolyn yn teimlo y gallant godi llais yn y gwaith er mwyn codi pryderon ac a yw'r pryderon hynny'n cael eu clywed a'u gweithredu
    f. cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a dilyniant
    g. gwybodaeth am hawliau'r gweithle a mynediad at gymorth a gwneud iawn gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: reolwyr neu adroddiadau uniongyrchol; iechyd

galwedigaethol; grwpiau staff; prosesau cwynion; a chymorth undebau llafur.

5. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried a gyfrannodd hil, gan gynnwys unrhyw ffactorau strwythurol, at unrhyw wahaniaeth mewn triniaeth a phrofiad gweithwyr lleiafrifoedd ethnig.

6. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried a gyfrannodd statws mewnfudo at unrhyw wahaniaeth mewn triniaeth a phrofiad gweithwyr lleiafrifoedd ethnig.

7. Bydd yr ymchwiliad yn edrych ar unrhyw wahaniaeth mewn triniaeth a phrofiad o fewn yr un grŵp ethnig oherwydd nodweddion gwarchodedig eraill.

**Ffynonellau gwybodaeth**

8. Bydd y Comisiwn yn casglu tystiolaeth gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, cyflogwyr, darparwyr, comisiynwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys academyddion ac arbenigwyr, undebau, sefydliadau cyngor a chymorth.

9. Gall y Comisiwn benderfynu defnyddio ei bwerau o dan Ddeddf 2006 i gael y dystiolaeth ofynnol os oes angen[1]. Yn ystod ymchwiliad gall y Comisiwn roi rhybudd o dan y paragraff hwn i orfodi unrhyw berson i ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfennau yn ei feddiant, neu i roi tystiolaeth ar lafar.

[1] *Atod. 2, Paragraffau 9-14, Deddf Cydraddoldeb 2006*

10. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried adroddiadau presennol yr ystyrir eu bod yn berthnasol i gwmpas yr ymchwiliad, a gallai gynnwys ystyried y rhesymau pam na weithredwyd argymhellion ac effaith hyn.

11. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad o'i ganfyddiadau a chaiff wneud argymhellion yn unol ag Atodlen 2 paragraff 16 o Ddeddf 2006.

**Dehongliad:**

12. At ddibenion y cylch gorchwyl hwn mae'r diffiniadau dilynol yn berthnasol:

a. Ystyr **'Deddf 2006'** yw Deddf Cydraddoldeb 2006
b. Ystyr **'Deddf 2010'** yw Deddf Cydraddoldeb 2010
c. Ystyr **'lleiafrif ethnig'** yw: grwpiau ethnig Cymysg/Lluosog, grwpiau Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, grwpiau Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig, grwpiau ethnig Gwyn gan gynnwys Pwylaidd, Sipsiwn, Teithwyr Sipsiwn yr Alban a Theithwyr Gwyddelig, a grwpiau ethnig eraill. At ddibenion yr ymchwiliad hwn nid yw lleiafrif ethnig yn cynnwys y grwpiau ethnig Gwyn dilynol: Saesnig/Cymreig/Albanaidd/Gwyddelig o'r Gogledd/Gwyddelig/Prydeinig.
d. Ystyr **'gofal cymdeithasol'** yw unrhyw ofal cymdeithasol ffurfiol i oedolion ym meysydd preswyl, nyrsio, cartref a gofal dydd, boed hynny ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr, ni waeth pwy sy'n ei ddarparu (cyhoeddus, trydydd sector, preifat) neu sut mae'n cael ei ariannu (gan gynnwys gofal wedi'i ariannu gan daliadau uniongyrchol). Nid yw'n cynnwys gofal anffurfiol/di-dâl.
e. 'Cyflog is' Yn yr ymchwiliad hwn rydym yn canolbwyntio ar rolau sy'n talu hyd at oddeutu £10 yr awr. Mae hyn yn cynnwys: Bandiau cyflog 1 a 2 y GIG. Mae hyn ychydig yn uwch na Chyflog Byw Gwirioneddol Iawn y DU, sef £9.30 yr awr ac mae'n caniatáu

cymhariaeth ar draws swyddi iechyd a gofal cymdeithasol ar gyflog is.
f. cyflogaeth/gwaith ansefydlog yw gwaith heb unrhyw oriau gwarantedig (contractau dim oriau) neu ddim sicrwydd oriau, sydd hefyd â chyflog isel.
g. cyflogaeth / gwaith ansicr yw cyflogaeth dros dro neu waith asiantaeth/banc

**Methodoleg**

I gynnwys adolygiad o’r dystiolaeth berthnasolbresennol, casgliad pellach o dystiolaeth ansoddol ar brofiadau byw gweithwyr lleiafrifoedd ethnig, galwad agored am dystiolaeth, a chyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol.

**Cyfathrebiadau ynghylch yr ymchwiliad hwn**

Gellir anfon unrhyw ohebiaeth ynghylch yr ymholiad hwn at: